

# Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19 a 2019/20

## Cyd-destun a chefnidir

### Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg yw Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ac mae'n rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Mae gan yr ysgol 1121 o ddysgwyr ar y gofrestr ac mae 7.3 y cant ohonyn nhw'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM).

### Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys wyth aelod o staff.

### Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £25,719 ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

## Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

### Hyfforddi staff – paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd/datblygu arweinyddiaeth

Defnyddiwyd y grant dysgu proffesiynol ychwanegol i ariannu nifer o wahanol brosiectau yn ysgol Bro Morgannwg, er enghraifft, y ddarpariaeth o ddiwrnod HMS gan ddarparwr allanol ar y cysyniad o feddylfryd twf.

Ar ôl yr hyfforddiant, neilltuwyd amser i'r Dirprwy Bennaeth a'r Penaethiaid Cynorthwyol greu adnoddau Cymraeg a oedd yn enghreifftio'r cysyniad. Anogwyd y staff wedyn i weithio mewn grwpiau o dri, (trïawdau), i ddatblygu a gwerthuso'r ddamcaniaeth yn yr ystafell ddosbarth. Rhannwyd a gwerthuswyd gwaith pob triawd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

### Cydweithredu

Fe wnaeth gwariant grant hefyd ganiatáu i'r staff ohirio'r amserlen arferol i weithio ar brosiectau trawsadrannol fel *Fi Fy Hun, Fy Mro a Fy Myd*. Mynychodd staff a dysgwyr ddigwyddiadau i wrando ar siaradwyr perthnasol a daeth y prosiect i ben gyda dysgwyr yn cynnal te prynhnawn Patagonaidd i bawb a oedd yn rhan o'r prosiect.

Cynigiodd y cyllid dysgu proffesiynol ychwanegol y cyfle hefyd i chwech o athrawon ymweld ag ysgolion yng Ngwlad yr Iâ a Sweden i arsylwi a dysgu am eu dilyniant cwricwlwm yn eu hysgolion pob oedran. Defnyddiwyd y profiad a'r arsylwadau i ddatblygu cynlluniau gwario a chwricwlwm Bro Morgannwg.

## **Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol**

Llwyddodd gweithio ar brosiectau ysgol gyfan a chydag ysgolion clwstwr i gynyddu hyder y staff yn eu paratodau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## **Effaith y grant ar ddysgwyr**

Mwynhaodd y dysgwyr ohiriad yr amserlen arferol i ganiatáu iddyn nhw gymryd rhan mewn diwrnodau prosiect fel *Fi Fy Hun*, *Fy Mro a Fy Myd*, gan gaffael gwybodaeth ac ymwybyddiaeth werthfawr o'u hardal leol. Mae ehangu profiad y dysgwr yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm newydd ac yn un maes y bydd Bro Morgannwg yn ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

## **Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol**

Amlygodd ymweliadau Bro Morgannwg ag ysgolion yn Sweden a Gwlad yr Iâ bwysigrwydd defnyddio llyfrgell yr ysgol yn llawn i hybu, annog a gwella llythrennedd ar draws pob oedran yn yr ysgol.

## **Y camau nesaf**

Mae staff ym Mro Morgannwg yn bwriadu gweithio mewn Grwpiau Meysydd Dysgu a Phrofiad i ddatblygu a threialu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu.